



Mawrth 2018

Grant Datblygu Disgyblion

Credaf yn gryf ym mhwysigrwydd y Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Mae'r GDD yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn llwyddo yn y dyfodol ac mae *Cenhadaeth Ein Cenedl* yn amlinellu fy ymrwymiad i'w ymestyn. Gyda hynny mewn golwg, yr wyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r cynlluniau yr wyf wedi eu rhoi ar waith ar gyfer y GDD a ddaw i rym o fis Ebrill:

- Mae'n hollol gywir ein bod yn uchelgeisiol ar gyfer hyd yn oed ein dysgwyr ieuengaf, felly yr wyf yn cynyddu'r Grant Datblygu Disgyblion Blynnyddoedd Cynnar o £600 i **£700**, gyda fformiwla symlach ar gyfer ysgolion;
- Byddwn yn parhau i ariannu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) neu sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfradd o **£1,150** fesul dysgwr;
- Bydd y sawl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), sydd heb gofrestru mewn dau leoliad, yn parhau i gael yr un gyfradd gyllid – hefyd ar gyfradd o **£1,150**; ac
- Rydym wedi **ehangu diffiniad** y GDD - i gynnig yr hyblygrwydd i ysgolion i gefnogi dysgwyr sydd wedi cael prydau ysgol am ddim yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; ac
- **Yr wyf wedi pennu dyraniadau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf** – i roi sefydlogrwydd i ysgolion i gynllunio ymlaen llaw a sicrwydd ar adeg o natur anrhagweladwy sylweddol.

Fel rwyf wedi nodi yn *Cenhadaeth Ein Cenedl*, rwyf am i Gymru gael ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, ecwiti a lles; system lle bydd ein dysgwyr mwyaf difreintiedig yn cael eu cefnogi. Dyna pam rwyf wedi penderfynu ehangu diffiniad y GDD. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i chi gefnogi dysgwyr sydd wedi cael prydau ysgol am ddim yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Y diffiniad estynedig yw:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r grant datblygu disgyblion roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheini o gefndiroedd difreintiedig i gyflawni eu potensial llawn.

Mae tystiolaeth yn dweud wrthym fod rhaid i ni wneud mwy yng Nghymru i nodi, cefnogi ac ymestyn ein dysgwyr mwy galluog. Yr wyf am fod yn glir bod y GDD yn cefnogi pob dysgwr cymwys gan gynnwys ein dysgwyr mwyaf galluog. I fod yn wirioneddol deg a rhagorol mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob disgybl yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial. Yr wyf yn ymwybodol o ymarferion rhagorol, ond rhaid eu rhannu a'u datblygu.

Rwyf wedi gwranddo ar eich pryderon am yr angen i'r GDD i fod yn ymrwymiad hirdymor i'ch caniatáu i gynllunio'n fwy effeithiol. Ac yr wyf yn falch o gadarnhau fod y trefniadau hyn ar waith ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (2018-19 a 2019-20). Rwyf hefyd, yn flaenorol, wedi rhoi sicrwydd o'n hymrwymiad i'r GDD am weddill y tymor Cynulliad hwn. Gobeithiaf y bydd ymrwymiad hirdymor hwn yn galluogi ysgolion i wneud penderfyniadau cynaliadwy, hirdymor ar fuddsoddi a helpu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau dysgu gan hefyd ddarparu lefel o sefydlogrwydd cyd-destun ariannol yn ystod amser sydd fel arall yn ansicr a heriol.

Wrth ochr cydgysylltwyr rhanbarthol plant sy'n derbyn gofal, mae pob consortiwm nawr wedi sefydlu cynghorydd strategol ar gyfer y GDD. Eu ffocws bydd codi cyrhaeddiad pob dysgwr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Byddant yn cryfhau cydweithio ledled Cymru i sicrhau bod ymarfer da yn cael eu rhannu ac adeiladu arnynt. Bydd y cynghorwyr hyn yn gallu darparu cymorth ychwanegol ac arweiniad - boed yn benderfyniadau ynghylch ymyriadau; dulliau gweithredu ysgol gyfan; tracio; neu gefnogi gwerthusiad o'r arferion presennol - byddwn yn eich annog i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth hwn.

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mi fydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r consortia i weithredu'r newydd hyn.

Mae eich gwaith caled parhaus ac arweinyddiaeth gref, yn ogystal ag ymroddiad eich timau yn hanfodol i gyflawni *Cenhadaeth Ein Cenedl*. Yr wyf yn ddiolchgar i chi am eich ymrwymiad parhaus i gau'r bwloch o ran cyrhaeddiad a chefnogi ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu potensial.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.